# RHESTR WIRIO BRECHIAD Y FRECH WEN YN ERBYN BRECH Y MWNCÏOD

Rhestr wirio i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth asesu person ar gyfer brechu yn erbyn brech y mwncïod gan ddefnyddio brechlyn y frech wen MVA-BN (Vaccinia Ankara wedi'i Addasu – Bavarian Nordic).

Nid yw ateb ydw/oes i unrhyw un o'r cwestiynau hyn bob amser yn golygu na ellir rhoi'r brechlyn ond gall olygu bod angen rhagor o wybodaeth cyn brechu. Os mai nac ydw/nac oes yw'r ateb i'r holl gwestiynau hyn, yna dylai'r brechu allu mynd rhagddo fel y cynlluniwyd.

1. **A ydych wedi cael adwaith alergaidd difrifol i ddos blaenorol o frechlyn MVA-BN yn y gorffennol?**

2. **A ydych erioed wedi cael adwaith alergaidd i brotein cyw iâr, bensonas, gentamisin neu ciproflocsasin yn y gorffennol?**

3. **A oes gennych unrhyw alergeddau difrifol eraill?**

   Os oes, rhowch fanylion

4. **A oes gennych dymheredd uwch neu'n teimlo twymyn ar hyn o bryd?**

5. **A oes gennych ddermatitis atopig?**

   Mae'n hysbys bod pobl sydd â dermatitis atopig wedi datblygu mwy o symptomau sy'n gysylltiedig â'r safle brechu a symptomau cyffredinol ar ôl brechu gyda brechlyn MVA-BN. Dylai pobl sydd â dermatitis atopig gael asesiad risg cyn brechu gan ystyried y risg o ddod i gysylltiad, y risg o sgil-effeithiau a'r defnydd posibl o fesur ataliol amgen.

6. **A oes gennych gyflwr neu a ydych yn derbyn triniaeth sy'n gwanhau'r system imiwnedd?**

   Ni ddylai brechlyn MVA-BN achosi unrhyw risg i'r rhai sy'n imiwnoataliedig. Fodd bynnag, gallai'r ymateb imiwnyddol i'r brechlyn gael ei leihau mewn unigolion sy'n ddifrifol imiwnoataliedig. Yn gyffredinol, dylai brechu fynd rhagddo yn unol â'r argymhellion, gan fod yr unigolion hyn hefyd yn wynebu risg sylweddol o gymhlethdodau brech y mwncïod. Efallai y bydd angen cyngor meddygol arbenigol ar fesurau eraill a dylid ystyried dosau ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg barhaus o ddod i gysylltiad â'r frech.

7. **A ydych yn feichiog?**

   Os ydyw, nodwch nifer yr wythnosau a chofnodi hyn yng nghofnod y claf yn dilyn brechu.

   Nid yw beichiogrwydd o reidrwydd yn wrtharwydd i gael y brechlyn MVA-BN ond mae angen trafodaeth bellach gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cyn bwrw ymlaen gyda brechu.

8. **A ydych yn bwydo ar y fron ar hyn o bryd?**

   Nid yw bwydo ar y fron o reidrwydd yn wrtharwydd i gael y brechlyn MVA-BN ond mae angen trafodaeth bellach gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cyn bwrw ymlaen gyda brechu.